# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 14eg o Orffennaf 2021 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Ruby Williams, Wyn Evans, Gerallt Davies, Wyn Jones.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorwr Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Garym Roberts, Jocelyn Andrew, Carys Morgan a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**

A210523.
Datblygu anneddau ar dir Wenfryn, Ffosyffin.
Penderfynwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cais ac i ddanfon llythyr i atgoffa'r Adran Gynllunio am y broblem hanesyddol sydd ar y beipen garthffosiaeth a'r nam sylweddol sy'n achosi llygredd a niwed i iechyd a diogelwch y gymdogaeth a'r trigolion.

A210574
Dymchwel sied gerrig a'i amnewyddu ag annedd ar dir Ty Coch, Rhiwgoch, Aberaeron.
Dim gwrthwynebiad.

A210558.
Dymchwel garej a'i amnewyddu a 'stafell ardd yn Morawen, Heol Aberteifi, Aberaeron.
Dim gwrthwynebiad.

**Unrhyw Fater Arall:**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher yr 8fed o Fedi.